**TGAU**

3000N20-1A

S23-3000N20-1A

**DYDD GWENER, 12 MAI 2023 – BORE**

# CYMRAEG IAITH

**Uned 2**

**Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio**


2 awr

**DEUNYDD DARLLEN I'W DDEFNYDDIO GYDAG ADRAN A**

3000N201A 01

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**DARN DARLLEN 1**
**Prynu tŷ am y tro cyntaf**



## DARN DARLLEN 2
## Llety yng Nghymru

**Llety yng Nghymru** | Lleoliad | Opsiynau Poblogaidd | Amdanom ni | English | **Gosod llety**

**Cartref > Hafod (491153)**

5 seren

### Hafod










(29)

**£120 y noson**

4 Person | 2 Ystafell wely | 2 Ystafell ymolchi | Anifail anwes

| | |
|---|---|
| **Gweithgareddau gerllaw** | Cerdded, beicio, chwaraeon dŵr, pysgota, golff, marchogaeth |
| **Gwelyau ac ystafelloedd gwely** | Dillad gwely yn gynwysedig<br>1 gwely dwbl<br>2 wely sengl |
| **Ystafelloedd ymolchi** | 2 doiled<br>Tywelion ar gael |
| **Nodweddion arbennig** | Wi-Fi<br>Twb poeth<br>Barbeciw<br>Parcio preifat |
| **Cegin** | Peiriant sychu dillad<br>Peiriant golchi llestri<br>Rhewgell |

3000N201A
03



**Trowch y dudalen.**

**DARN DARLLEN 3**
**Mae tŷ Nain ar Rightmove**

golwg 360

## Mae tŷ Nain ar Rightmove




Daeth y neges gan ei chwaer yn oriau mân y bore. Eisteddodd Lili i fyny yn ei gwely, ac agor yr ap ar ei ffôn. Y tu allan, cysgai'r byd i gyd, a dim ond ochenaid sŵn car ar lonydd yn torri'r tawelwch bob hyn a hyn. Roedd hi wedi bwrw eto, a Gorffennaf, hyd yn hyn, wedi bod yn siom.

Dyna fo – tŷ Nain. *Terraced house in sought-after location. Ideal as a rental property or as a first step on the property ladder.*

Edrychodd Lili ar y lluniau, ei chorff yn plygu dros y goleuni hael o sgrin ei ffôn.

Roedd rhywun wedi paentio'r ystafell fyw'n wyn, ac wedi rhoi carped lliw-dim-byd ar lawr. Edrychai'r soffa Ikea allan o'i lle, rhywsut, fel petai wedi ei phrynu i rywle ychydig crandiach ond wedi gorfod derbyn ei ffawd o fyw mewn tŷ rhent bychan. Cofiai Lili gadair freichiau ei thaid yn y gornel bellaf, y defnydd patrymog ar y clustogau'n breuo ac yn datod y patrwm. Cofiai sŵn y criced o'r teledu, a'r ffordd y byddai'r llwch o'r safle adeiladu wedi gadael arogl plastar a sment ar ei ddillad.

Doedd y gegin heb newid fawr ddim. Llyncodd Lili ei phoer.

Cegin hir, fain, heb le i fwrdd bach na chadair i eistedd. Arferai Nain lenwi'r lle, er mor fach oedd hi, yn symud o hyd rhwng yr oergell a'r *ffwrn a'r sinc. Y tun glas blodeuog wastad yn llawn cacenni neu fisgedi, eu blas yn felys fel gwên Nain. Yn y llun, roedd arwydd ar gefn y drws – *Home is where the heart is*, ystrydeb mewn ysgrifen italig. Bron na allai Lili weld y drws yna'n agored, Nain yn pwyso ar ffrâm y drws yn edrych allan ar yr iard fach, sŵn ei chymuned yn gwmni iddi.



Doedd Lili heb gysgu'n iawn ers gadael y tŷ yna.

O dŷ rhent i dŷ rhent, wastad ar drugaredd landlord, roedd y strydoedd o'i chwmpas wedi araf droi'n *sought-after location*, yn dai cyntaf a byth yn gartrefi-am-byth. Tai Airbnb ac ail gartrefi i'w rhentu fesul noson neu fesul hanner blwyddyn. Roedd hanner y cartrefi ar stryd Nain yn gwneud elw i rywun.

Ond y tŷ yna, ar sgrin ei ffôn ac yn ddwfn, ddwfn yn anwyldeb ei chalon – dyna oedd yr un gornel fechan o Grangetown yr ysai Lili i'w chael yn ôl.

*popty

# TUDALEN WAG

**DARN DARLLEN 4**
**Blog Mabli Siriol**

## #NidYwCymruArWerth!

gan Mabli Siriol Jones, Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith




Mae gan bawb yr hawl i gartref yn eu cymuned.

Ond ar hyn o bryd, mae pobl ifanc ar draws Cymru'n cael trafferth fforddio byw yn eu cymuned. Mae prisiau tai a rhent wedi cynyddu i'r fath raddau fel eu bod y tu hwnt i gyrraedd pobl ar gyflogau cyffredin.

Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod llywodraethau dros y degawdau wedi trin tai fel eiddo i wneud elw, yn lle cartrefi. Mae'r canlyniadau wedi bod yn drychinebus i bobl gyffredin Cymru, ein cymunedau a'r Gymraeg – ac maen nhw'n gwaethygu.

Mae Shelter Cymru'n amcangyfrif bod 1 ymhob 3 o bobl yng Nghymru yn cael eu heffeithio gan yr argyfwng tai. Mae'n broblem benodol i bobl ifanc, gyda'r genhedlaeth iau yn cael eu galw'n Genhedlaeth Rhent am nad ydynt yn gallu fforddio prynu tŷ. Maen nhw'n gorfod gwario rhan fawr o'u cyflog ar rent, gan adael llai o arian i bethau eraill mewn bywyd a chynilo ar gyfer y dyfodol.

Dw i'n dod o ardal Grangetown yng Nghaerdydd lle mae prisiau tai wedi ffrwydro dros y blynyddoedd diwethaf. Dydy pobl ifanc a gafodd eu magu yma ddim yn gallu fforddio rhentu neu brynu. Mae'r un peth yn wir am arfordir Cymru a chymunedau gwledig. O ganlyniad, dydy pobl ifanc ddim yn gallu fforddio tŷ yn lleol ac mae nifer yn gadael – ac yn mynd â'r Gymraeg gyda nhw.

Mae rhywbeth mawr wedi mynd o'i le mewn cymdeithas lle mae gan rai pobl ddau dŷ, ac eraill yn ddigartref. Cymdeithas lle mae ein diffiniad o dŷ 'fforddiadwy' y tu hwnt i gyrraedd pobl ar gyflogau cyffredin. A chymdeithas lle gall datblygwyr a'r cyfoethog ddod i mewn i gymuned a gwneud be' bynnag maen nhw [1]moyn, dim ots am farn y bobl leol neu'r effaith arnynt.

Ond canlyniad penderfyniadau gwleidyddol yw'r rhain i gyd, nid rhywbeth [2]anochel – felly mae modd eu newid.

Mae gan Gymdeithas yr Iaith sawl cynnig am sut i fynd ati i ddatrys y broblem. Yr hyn sydd ei angen ydy ewyllys gan wleidyddion i weithredu.

Yn gyntaf oll, rydym yn galw ar y Llywodraeth i gymryd camau brys sy'n cynnwys cyflwyno trethi newydd ar dwristiaeth, ail dai ac Airbnb. Gallant fuddsoddi'r elw yn y cymunedau a thai i bobl leol. Yn ogystal, mae angen rheoli prisiau tai a rhent fel eu bod nhw'n fforddiadwy a rhoi cymorth penodol i bobl ifanc aros yn eu cymunedau.

Rhaid cofio hefyd fod yr 'hawl i fyw adra' yn fwy na thai yn unig. Mae hefyd yn golygu cyfleoedd i bobl ifanc ym mhob rhan o'r wlad, buddsoddiad mewn gwasanaethau lleol a chadw ein hysgolion bychain ar agor. Bydd yr iaith yn fyw mewn cymunedau byw.

Gyda'n gilydd mae'r grym gennym ni. Rydym ni wedi ennill sawl brwydr dros yr iaith o'r blaen, o'r arwyddion ffyrdd dwyieithog i sefydlu S4C ac addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ar bob lefel. Enillwn ni'r frwydr hon hefyd er mwyn sicrhau bod pobl ifanc Cymru yn gallu fforddio byw yn lleol, a byw trwy gyfrwng y Gymraeg.

[1]moyn – eisiau
[2]anochel – sy'n sicr o ddigwydd

ⓗ WJEC CBAC Cyf. 

**DARN DARLLEN 5**
**Hawl i Fyw Adra**

Cymru

## Hawl i Fyw Adra: yr argyfwng tai “yn teimlo fel brwydr barhaus”

golwg360

Dywed llefarydd ar ran yr ymgyrch Hawl i Fyw Adra fod yr argyfwng tai “yn teimlo fel brwydr barhaus”.

Gorymdeithiodd ymgyrchwyr i bencadlys Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon ddydd Sadwrn, Medi 25. Eu nod yw galw ar arweinwyr Llywodraeth Cymru a’r Cyngor i gyflwyno rheoliadau llymach ar ail gartrefi mewn cymunedau ledled Cymru.

Yn ôl ffigurau Cyngor Gwynedd, nid yw 60% o drigolion y sir yn gallu fforddio prynu tŷ yno. Mae 11% o dai'r sir yn ailgartrefi.

Mae Hawl i Fyw Adra, a gafodd ei sefydlu gan Gyngor Tref Nefyn, yn galw am adolygiad brys o Gynllun Datblygu Lleol Gwynedd ac Ynys Môn. Daw hyn oherwydd y cynnydd *digynsail mewn prisiau tai ac yn nifer y tai sydd bellach yn ail gartrefi. Bu galwadau i addasu’r cynllun “sydd wedi dyddio” am nad yw’n cwrdd ag anghenion pobl leol.

**Cyngor yn wfftio pryderon**

Mae arweinydd Cyngor Gwynedd wedi wfftio’r awgrym nad yw’r awdurdod yn gweithredu ar frys. Ond mae Hawl i Fyw Adra yn mynnu nad yw’r awdurdod “wedi ymateb yn foddhaol”, a bod y cynllun presennol yn “elyniaethus tuag at bobl a chymunedau lleol”.

Yn y rali y tu allan i bencadlys y Cyngor, fe fu Rhys Tudur yn galw ar ran Hawl i Fyw Adra am “weithredu ar unwaith”, gan ddweud y byddai unrhyw beth llai yn gwanhau’r iaith Gymraeg yn ei chadarnleoedd.

**Cynllun annigonol**

“Mae’n teimlo fel brwydr barhaus,” meddai’r Cynghorydd Rhys Tudur.

“Fydd eu cynllun gweithredu tai ddim yn galluogi digon o bobl leol i barhau i fyw yn eu cymunedau.”

Dywed Rhys Tudur fod gweinidogion yn “llusgo’u traed”. Mae’n galw eto am ardal beilot lle byddai’n rhaid cael caniatâd cynllunio cyn bod modd troi cartref preswyl yn ail gartref.

Yn y Swistir mae mesurau sy’n atal pobl nad ydyn nhw’n drigolion lleol rhag prynu ail gartrefi mewn ardaloedd sydd wedi’u gwarchod.

“Ym Morfa Nefyn, lle ces i fy magu, does gen i ddim gobaith o fyw yno gan fod y prisiau’n rhy uchel. Mae ein cymunedau ni’n prysur ddatgymalu. Mae hi’n drist iawn bo’ chi’n cael eich magu mewn cymuned, yn teimlo cariad tuag ati, ac wedyn mae'r drws yn cau yn glep yn eich wyneb chi am fod y prisiau ’di mynd yn rhy ddrud i chi allu byw yn eich bro.”

"Da ni ’di cael sawl ton o ail gartrefi yn cael eu prynu, ond y tro ’ma mae ’na tswnami wedi ein taro ni – a gall fod yn ddiwedd ar ein cymunedau ni. Dyna’r sefyllfa rydym ni ynddi, mae angen gweithredu chwyldroadol arnom.”

**‘Effaith fawr ar gymunedau’**

Dywedodd llefarydd ar ran Llywodraeth Cymru eu bod “eisiau i bawb allu cael mynediad at dai fforddiadwy o safon uchel, a dyma pam y byddwn yn adeiladu 20 000 o gartrefi newydd carbon isel ledled Cymru yn ystod y tymor hwn”.

“Gall nifer fawr o ail gartrefi mewn cymuned leol gael effaith fawr ar y gymuned honno. Cymru ydy’r unig wlad yn y DU sy’n rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol godi mwy o dreth cyngor ar adeiladau sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir ac ail gartrefi.”

Mae Llywodraeth Cymru’n cydnabod yr heriau mae rhai cymunedau’n eu hwynebu a’u bod nhw’n benderfynol o ddatrys y broblem hon.

*digynsail – heb ei debyg o’r blaen

# TUDALEN WAG